Simon Harris

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?’

Rwyf wedi gweithio a gwirfoddoli yn y trydydd sector ers 30 o flynyddoedd, gan ymgymryd â rolau uwch-reoli fel Prif Weithredwr Canolfan Cydweithredol Cymru (Cwmpas bellach) a Chyfarwyddwr Cymru Busnes yn y Gymuned. Mae hyn wedi fy ngalluogi i ennill y sgiliau a’r wybodaeth i fod yn un o ymddiriedolwyr CGGC. Mae gennyf hefyd brofiad o’r sector preifat a chyhoeddus – fi yw Cynrychiolydd Cymru yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar hyn o bryd – rwy’n credu’n gryf y gall gwahanol sectorau ddysgu o’i gilydd.

Rwy’n parhau i fod yn ymrwymedig ac yn frwd i helpu CGGC a’r trydydd sector wynebu ac ymateb i’r heriau sydd o’u blaenau, yn enwedig nawr wrth i ni wynebu’r argyfwng costau byw, a fydd yn galed i lawer o fudiadau gwirfoddol a’r rheini y maen nhw’n eu cefnogi, ac i helpu i ddatblygu ein strategaeth ar gyfer y dyfodol.

Wrth gydnabod a deall y cyfrifoldebau sylfaenol o fod yn aelod bwrdd (sef rhoi llywodraethiant eithriadol, llywio gwaith strategol, gwneud gwaith craffu trylwyr, llunio’r diwylliant, ymhlith pethau eraill), credaf fod gennyf y cymwysterau a’r profiad priodol i fod yn ymddiriedolwr. Rwy’n ymrwymedig i werthoedd y sector gwirfoddol a dyma sydd wrth wraidd fy nghefnogaeth frwd i CGGC a’r mudiadau y mae’n gweithio gyda nhw.